**Bridgend County Borough Council**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
www.bridgend.gov.uk







# Proffil o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – 2018



**Cyflwyniad**


Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i lleoli yng nghanol De Cymru, rhwng dwy brif ddinas y dywysogaeth; Caerdydd i'r dwyrain ac Abertawe i'r gorllewin.

Mae'r fwrdeistref sirol yn ffinio â Chastell-nedd Port Talbot i'r gorllewin a'r gogledd, yna Rhondda Cynon Taf hefyd i'r gogledd, ynghyd ag i'r gogledd-ddwyrain, a Bro Morgannwg i'r dwyrain. Mae ganddi ardal o tua 25,500 hectar a phoblogaeth o **143,400** (amcangyfrif poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)).

A hithau'n mesur tua 20 km o'r dwyrain i'r gorllewin, mae'r ardal yn cwmpasu cymoedd Ogwr, Garw a Llynfi i'r gogledd, ac yn ffinio â Môr Hafren i'r de.

Y prif ganolfannau masnachol yw Pen-y-bont ar Ogwr a Maesteg, ynghyd â chyrchfan glan môr Porth-cawl.

Pen-y-bont ar Ogwr yw'r dref fwyaf o'r rhain, a hi yw canolfan weinyddol yr ardal. Mae'r fwrdeistref sirol yn elwa ar seilwaith trafnidiaeth rhagorol oherwydd bod traffordd yr M4 yn croesi rhan ddeheuol y fwrdeistref sirol, mewn llinell o'r dwyrain i'r gorllewin, ac yn sicrhau teithiau cyflym i Gaerdydd, Abertawe a gweddill De Cymru, ynghyd â thu hwnt. Mae yna dair cyffordd i'r draffordd (35-37) yn y fwrdeistref sirol. Ar ben hyn, mae gwasanaeth rheilffordd rhyng-ddinesig cyflym, sy'n cysylltu'r ardal â'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol cyfan, yn sicrhau trafnidiaeth rheilffordd gyflym ac effeithlon, a dim ond 15 milltir i ffwrdd yw Maes Awyr Caerdydd. Mae Pen-y-bont ar Ogwr hefyd wedi ei gysylltu'n dda â'r porthladdoedd môr, gyda'r Barri, Caerdydd, Port Talbot ac Abertawe o fewn 30 munud o amser gyrru.




**Mae Ffigur 1 uchod yn dangos prif briffyrdd ac aneddiadau y fwrdeistref sirol**

**Cefnogaeth i fusnesau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

I ddibenion cymorth rhanbarthol Ewrop, mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dod o fewn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae hyn yn cynnwys 15 o 22 awdurdod lleol Cymru. Yn ystod y cyfnod o 2014 hyd at 2020, bydd tua £1.4 biliwn o gefnogaeth yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei fuddsoddi yn yr ardal, mewn ymdrech i ysgogi datblygiad a thwf economaidd. Ochr yn ochr â hyn, mae'r ardal gyfan wedi'i dynodi yn ardal a gynorthwyir, sy'n golygu y gall y lefel uchaf o gymorth gwladwriaethol gael ei dyfarnu i fusnesau sy'n ceisio buddsoddi.

Er bod gan y fwrdeistref sirol gysylltiadau cryf i'r dwyrain a'r gorllewin, mae'n rhan o gylch gorchwyl Rhanbarth Dinas Caerdydd. Mae hyn yn debygol o gael dylanwad sylweddol ar ddatblygiad economaidd a buddsoddiad yn y seilwaith, ledled y rhanbarth, gydol y blynyddoedd i ddod. Mae'n cynnwys 10 ardal awdurdod lleol, sy'n cwmpasu de-ddwyrain Cymru i gyd. Am ragor o wybodaeth cliciwch arhttps://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/508268/Cardiff_Capital_Region_City_Deal.pdf

Mae gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr nifer o gwmnïau mawr yn yr ardal, sy'n gydnabyddedig ledled y byd, gan gynnwys Ford, sy'n cynhyrchu moduron injan yn ei safle yn Waterton (de Pen-y-bont ar Ogwr) a Sony, sy'n cynhyrchu camerâu darlledu ac sydd â chanolfan gwasanaethau technoleg yn ei ganolfan ym Mhencoed. Mae rhestr lawn o'r cwmnïau allweddol ar dudalennau 10-11.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth i sectorau allweddol yng Nghymru – deunyddiau/gweithgynhyrchu uwch, y diwydiannau creadigol, adeiladu, ynni/yr amgylchedd, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, bwyd a ffermio, technolegau gwybodaeth a chyfathrebu, gwyddorau bywyd a thwristiaeth.

Mae cymorth i fusnesau lleol gan y cyngor yn cynnwys cynlluniau i gefnogi busnesau i ddechrau, ynghyd â chymorth i fusnesau bach a chanolig sydd eisoes yn bodoli. Mae yna ffocws hefyd ar gefnogi'r broses o adfywio'r prif ganolfannau masnachol – Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorth-cawl. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau ffisegol, cymorth i fusnesau canol y dref, a digwyddiadau i ddod â mwy o bobl i mewn i'r trefi. O dan y fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, cwblhawyd Cynllun Porth y Rhiw, gwerth £6 miliwn. Yn ogystal â maes parcio newydd i siopwyr, mae cartrefi canol tref fforddiadwy ac unedau masnachol wedi'u dwyn ymlaen.


Mae Tîm Economi'r cyngor hefyd yn darparu'r fframwaith cymorth ar gyfer Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnig amrywiaeth lawn o ddigwyddiadau a seminarau busnes sydd wedi'u teilwra i anghenion penodol busnesau lleol. Ar hyn o bryd, mae'r fforwm yn meddu ar 800 o aelodau o bob maint a ledled pob sector. Mae'n cynrychioli'r busnesau hyn ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'n gyfrwng gwybodaeth ddefnyddiol am amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'r gymuned fusnes, er enghraifft cyllid, mentrau'r llywodraeth, a chyfraith cyflogaeth. Cynhelir rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau a seminarau busnes i fusnesau yn ardal Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac o'i chwmpas. Am ragor o wybodaeth am Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr, cliciwch ar http://www.bridgendbusinessforum.co.uk/

Mae diweddariad busnes misol a chylchgrawn busnes chwarterol (business@bridgend) yn cael eu dosbarthu'n eang yn lleol. Mae'r Tîm Economi hefyd yn darparu cyfeiriadur busnes ar-lein y gellir ei chwilio, sy'n cynnig gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer busnesau sydd wedi'u lleoli yn y fwrdeistref sirol. Mae hwn yn adnodd ar-lein defnyddiol i ddod o hyd i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau lleol.

**Poblogaeth a demograffeg**

Mae poblogaeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu'n gyflym yn ystod y degawd diwethaf. Roedd ffigur amcangyfrif yr ONS yn 2015 yn 143,400, a oedd wedi codi o 128,700 yn 2001.

Dangosir is-ardaloedd y fwrdeistref sirol a maint yr ardaloedd trefol (mewn llwyd) yn Ffigur 2 isod.




**Ffigur 2 Is-ardaloedd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae Tabl 1 isod yn dangos dadansoddiad bras o'r boblogaeth rhwng is-ardaloedd y fwrdeistref sirol.

**Tabl 1 Dosbarthiad y boblogaeth yn ôl is-ardal**
Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| Is-ardal | Cyfran (%) |
|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 33 |
| Porth-cawl | 12 |
| Maesteg (Cwm Llynfi) | 16 |
| Pencoed | 7 |
| Porth y Cymoedd | 8 |
| Y Pîl/Cynffig/Corneli | 12 |
| Cwm Ogwr | 6 |
| Cwm Garw | 6 |

Fel y dengys Tabl 1, mae mwyafrif poblogaeth bresennol y fwrdeistref sirol i'w cael yn y tair prif dref, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Porth-cawl a Maesteg (Cwm Llynfi), sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrif am 61% o'r boblogaeth gyfan. Mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth wedi'i lleoli yn aneddiadau'r Pîl, Mynyddcynffig a Gogledd Corneli, ac o'u cwmpas, ger cyffordd 37 yr M4.

**Tabl 2 Cyflogaeth a diweithdra ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Hydref 2016-Medi 2017)**
Ffynhonnell: Arolwg poblogaeth blynyddol yr ONS

| | BS Pen-y-bont ar Ogwr | BS Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Pob person** | | | | |
| Yn economaidd weithgar† | 65,300 | 73.8 | 75.7 | 78.1 |
| Mewn cyflogaeth† | 62,100 | 70.1 | 71.9 | 74.5 |
| Cyflogeion† | 54,800 | 62.4 | 61.9 | 63.6 |
| Hunangyflogedig† | 7,100 | 7.6 | 9.4 | 10.6 |
| Di-waith (yn seiliedig ar fodel)§ | 3,200 | 4.9 | 4.8 | 4.5 |
| **Dynion** | | | | |
| Yn economaidd weithgar† | 34,200 | 77.7 | 79.3 | 83.2 |
| Mewn cyflogaeth† | 32,700 | 74.2 | 75.3 | 79.3 |
| Cyflogeion† | 28,000 | 64.4 | 61.7 | 64.9 |
| Hunangyflogedig† | 4,500 | 9.8 | 13.0 | 14.1 |
| Di-waith§ | 1,500 | 4.4 | 4.8 | 4.6 |

| Menywod | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn economaidd weithgar† | 31,100 | 70.0 | 72.2 | 73.1 |
| Mewn cyflogaeth† | 29,400 | 66.2 | 68.6 | 69.8 |
| Cyflogeion† | 26,700 | 60.5 | 62.2 | 62.3 |
| Hunangyflogedig† | 2,600 | 5.5 | 5.9 | 7.1 |
| Di-waith§ | 1,700 | 5.4 | 4.9 | 4.4 |

†mae'r niferoedd yn dynodi pobl 16 oed a hŷn; mae % yn dynodi'r rhai rhwng 16 a 64 oed
§mae'r niferoedd a'r % ar gyfer pobl 16 oed a hŷn. % yw cyfran y boblogaeth economaidd weithgar
Nodwch: oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y ffigurau uchod yn adio'n union.

Fel y gwelir yn Nhabl 3 isod, mae'r proffil galwedigaethol ar gyfer y boblogaeth sy'n gweithio ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn nodweddiadol, yn fras, o'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru a Phrydain. Fodd bynnag, mae gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfrannau llai yn y grwpiau "rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion" a'r grŵp "galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig", ond cyfrannau mwy yn y categorïau "galwedigaeth crefftau medrus" a "gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau".

**Tabl 3 Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth**
**(Hydref 2016-Medi 2017)**
Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS

| Galwedigaeth | Pen-y-bont ar Ogwr (%) | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|
| Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion | 9.4 | 9.3 | 10.9 |
| Galwedigaethau proffesiynol | 17.3 | 18.4 | 20.2 |
| Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig | 10.8 | 12.6 | 14.3 |
| Gweinyddol ac ysgrifenyddol | 11.3 | 10.5 | 10.3 |
| Galwedigaeth crefftau medrus | 13.1 | 12.2 | 10.3 |
| Galwedigaethau gofal, hamdden a gwasanaeth eraill | 11.3 | 10.1 | 9.2 |
| Gwasanaethau gwerthu a chwsmeriaid | 8.2 | 7.9 | 7.5 |
| Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau | 7.8 | 7.1 | 6.3 |
| Galwedigaethau elfennol | 10.3 | 11.3 | 10.6 |

Mae Tabl 4 (dros y dudalen) yn dangos cyfran y swyddi ym mhob sector sydd yn y fwrdeistref sirol.

Mae gweithgynhyrchu yn parhau'n gryf yn yr ardal, o'i gymharu â Chymru a Phrydain Fawr.

Mae bancio, cyllid, yswiriant, a swyddi proffesiynol, gwyddonol a thechnegol yn cael eu tangynrychioli yn y fwrdeistref sirol o gymharu â ffigur y Deyrnas Unedig.

Mae canran y swyddi mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd yn y fwrdeistref sirol yn uwch na chyfartaleddau Cymru a Phrydain.

**Tabl 4 – Dwysedd Swyddi (2016)**

| | Pen-y-bont ar Ogwr (Swyddi) | Pen-y-bont ar Ogwr (Dwysedd) | Cymru (Dwysedd) | Prydain Fawr (Dwysedd) |
|---|---|---|---|---|
| Dwysedd Swyddi | 66,000 | 0.75 | 0.76 | 0.84 |

Ffynhonnell: Dwysedd swyddi yr ONS
Nodiadau: Mae'r ffigurau dwysedd yn cynrychioli cymhareb cyfanswm y swyddi i'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed
Mae'r holl swyddi yn cynnwys cyflogeion, pobl hunangyflogedig, hyfforddeion a gefnogir gan y llywodraeth, a Lluoedd EM

**Swyddi Cyflogeion (2016)**

| | Pen-y-bont ar Ogwr (Swyddi Cyflogeion) | Pen-y-bont ar Ogwr (%) | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Swyddi'r Cyflogeion | 58,000 | - | - | - |
| Llawn-amser | 40,000 | 69.0 | 65.2 | 67.8 |
| Rhan-amser | 18,000 | 31.0 | 34.8 | 32.2 |
| | | | | |
| **Swyddi Cyflogeion yn ôl Diwydiant** | | | | |
| Mwyngloddio a Chwarela | 50 | 0.1 | 0.2 | 0.2 |
| Gweithgynhyrchu | 8,000 | 13.8 | 11.4 | 8.1 |
| Cyflenwi Trydan, Nwy, Stêm ac Aerdymheru | 75 | 0.1 | 0.6 | 0.4 |
| Gweithgareddau Cyflenwi Dŵr, Carthffosiaeth, Rheoli Gwastraff ac Adfer | 500 | 0.9 | 0.9 | 0.7 |
| Adeiladu | 3,500 | 6.0 | 5.5 | 4.6 |
| Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu; Atgyweirio Cerbydau Modur a Beiciau Modur | 9,000 | 15.5 | 15.1 | 15.3 |
| Cludiant a Storio | 1,750 | 3.0 | 2.9 | 4.9 |
| Gweithgareddau Llety a Gwasanaeth Bwyd | 4,000 | 6.9 | 8.9 | 7.5 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 2,250 | 3.9 | 2.3 | 4.2 |
| Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant | 450 | 0.8 | 2.3 | 3.6 |
| Gweithgareddau Eiddo Tirol | 600 | 1.0 | 1.6 | 1.6 |
| Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 2,250 | 3.9 | 4.2 | 8.6 |
| Gweithgareddau Gwasanaeth Gweinyddol a Chefnogi | 3,500 | 6.0 | 6.6 | 9.0 |
| Gweinyddu Cyhoeddus ac Amddiffyn; Nawdd Cymdeithasol Gorfodol | 5,000 | 8.6 | 6.8 | 4.3 |
| Addysg | 5,000 | 8.6 | 10.1 | 8.9 |
| Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol | 9,000 | 15.5 | 16.1 | 13.3 |
| Y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden | 1,000 | 1.7 | 2.5 | 2.5 |
| Gweithgareddau Gwasanaeth Eraill | 700 | 1.2 | 1.5 | 2.1 |


Ffynhonnell: Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth yr ONS: mynediad agored
- Y data ddim ar gael
Nodiadau: mae % yn golygu cyfran o gyfanswm y swyddi cyflogedig, ac eithrio amaethyddiaeth ar ffermydd.
Mae swyddi cyflogeion yn eithrio'r hunangyflogedig, hyfforddeion a gefnogir gan y llywodraeth, a Lluoedd EM
Nid yw'r data'n cynnwys amaethyddiaeth ar ffermydd

**Nifer y busnesau**

Yn 2016 yn y fwrdeistref sirol, roedd 4,085 o fusnesau wedi'u cofrestru ar gyfer TAW neu gynllun Talu Wrth Ennill (PAYE). Mae hyn yn gynnydd o 3,235 yn 2002 a 3,815 yn 2014. Yn 2016, roedd 535 o fusnesau wedi cael eu geni, o gymharu â 505 yn 2015.

Mae Ffigur 3 yn dangos archwiliad o faint busnesau yn y fwrdeistref sirol. Dengys hyn fod mwyafrif y mentrau yn fusnesau micro (yn cael eu diffinio fel rhai sydd â hyd at naw o weithwyr). Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol, sy'n amlygu cyfrannau tebyg o fusnesau bach iawn, gydag 87% yn cyflogi llai na 10 o weithwyr.

**Ffigur 3 Maint Busnesau**
Ffynhonnell: Demograffeg Busnes – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol



## Lleoliad swyddi a busnesau

Wrth asesu dosbarthiad cyflogaeth yn y fwrdeistref sirol, gellir cael data ar gyfer cyfanswm nifer y swyddi mewn ardal a chyfanswm nifer y busnesau. Roedd cyfanswm y swyddi yn y fwrdeistref sirol oddeutu 63,900 yn 2015.

**Tabl 5 Dosbarthiad Busnesau yn ôl Is-ardal**
Ffynhonnell: Yr ONS

| Is-ardal | % y Dosbarthiad |
|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 42 |
| Porth-cawl | 13 |
| Cwm Llynfi | 10 |
| Pencoed | 8 |
| Porth y Cymoedd | 10 |
| Y Pîl/Cynffig/Corneli | 11 |
| Cwm Ogwr | 3 |
| Cwm Garw | 3 |

**Tabl 6 Dosbarthiad y swyddi yn ôl is-ardal**
Ffynhonnell: Yr ONS

| Is-ardal | % y Dosbarthiad |
|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 62 |
| Porth-cawl | 7 |
| Cwm Llynfi | 7 |
| Pencoed | 6 |
| Porth y Cymoedd | 7 |
| Y Pîl/Cynffig/Corneli | 8 |
| Cwm Ogwr | 2 |
| Cwm Garw | 2 |

Nodwch: oherwydd talgrynnu, nid yw'r uchod yn rhoi cyfanswm o 100%.

O ran busnes (Tabl 5) a swyddi (Tabl 6), mae'n amlwg bod mwyafrif y gyflogaeth wedi'i lleoli yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Nid yw hyn yn syndod o ystyried mai hwn yw'r anheddiad mwyaf, ynghyd â'i rôl hanesyddol o fod yn ganolbwynt gwasanaeth a chyflogaeth. Mae hyn yn debygol o barhau i'r dyfodol gan fod y dref yn cael ei hystyried yn lle deniadol i fusnesau leoli, o ystyried y sylfaen gyflogaeth bresennol ac argaeledd llafur medrus. Canol y dref, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr, Ystad Ddiwydiannol Waterton, Parc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr a Pharc Technoleg Pencoed yw'r lleoliadau cyflogaeth allweddol.

## Patrymau cymudo a chyfathrebu

O ran patrymau cymudo, mae Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2015 yn nodi bod 70% o drigolion y fwrdeistref sirol yn gweithio yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, cyfran sy'n adlewyrchu'r cyfartaledd ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru.

Mae cyfanswm o 19,900 o bobl yn cymudo allan o'r fwrdeistref sirol i weithio, ac mae 17,800 yn cymudo i mewn iddi, gan greu all-lif net o 2,100.

Mae'n bwysig nodi bod yna safleoedd cyflogaeth a phreswyl mawr yn union gerllaw'r fwrdeistref sirol, yn Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot, a fyddai'n cyfrif am nifer fawr o deithiau "cymudo".

Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn elwa ar gyfathrebu a chysylltiadau rhagorol. Mae gan yr M4 dair cyfnewidfa yn y fwrdeistref sirol (rhifau 35 i 37), ac mae'r prif gyswllt rheilffyrdd i Lundain yn rhedeg trwy'r ardal, gyda'r rhan fwyaf o'r trenau yn stopio ym Mhen-y-bont ar Ogwr; hefyd, taith 20 munud yn unig ar y trên sydd i Gaerdydd. Yn ogystal â hyn, mae yna nifer o borthladdoedd môr yn gwasanaethu'r ardal, a'r rheiny ddim ond pellter 30 munud i ffwrdd mewn car.

Mae ystadegau pellach ar yr ardal wedi'u nodi isod.

**Enillion yn ôl man gwaith (2017)**

| | BS Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru (punnau) | Prydain Fawr (punnau) |
|---|---|---|---|
| **Tâl wythnosol gros** | | | |
| **Gweithwyr llawn-amser** | **536.00** | **498.40** | **552.30** |
| Gweithwyr gwrywaidd llawn-amser | 584.60 | 525.10 | 594.10 |
| Gweithwyr benywaidd llawn-amser | 461.30 | 457.60 | 494.00 |
| **Tâl bob awr** | | | |
| Gweithwyr llawn-amser | 13.61 | 12.52 | 13.99 |
| Gweithwyr gwrywaidd llawn-amser | 14.29 | 12.89 | 14.56 |
| Gweithwyr benywaidd llawn-amser | 12.18 | 12.08 | 13.17 |

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol yr ONS o oriau ac enillion – dadansoddiad yn y gweithle
Nodwch: enillion canolrifol mewn punnau ar gyfer y cyflogeion sy'n gweithio yn yr ardal.

Sylwadau
**Mae pobl sy'n gweithio ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar gyfartaledd, yn ennill mwy na Chymru gyfan ond ychydig llai na Phrydain.**

**Cwmnïau allweddol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Yn ogystal â chyflogwyr y sector cyhoeddus, megis ysbytai a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, dyma'r cyflogwyr mwyaf arwyddocaol yn yr ardal (**yn nhrefn yr wyddor**):

- Airborne Systems, Llangeinor, Cwm Garw. Dylunio a gweithgynhyrchu parasiwtiau.
- AMSS, Ystad Ddiwydiannol Village Farm, Y Pîl. Gweithgynhyrchu offer cefnogi tir ar gyfer y sector awyrofod.
- Astra Games Ltd, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr. Offer hapchwarae.
- Biomet Europe, Ystad Ddiwydiannol Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr. Gweithgynhyrchu mewnblaniadau ac offerynnau orthopedig.

- CGI – safleoedd ym Mharc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, cylchfan Waterton Cross, Ystad Ddiwydiannol Waterton, a Pharc Bocam, Pencoed. Gwasanaethau gwybodaeth.

- Coppice Alupack Ltd, Ystad Ddiwydiannol Isfryn, Melin Ifan Ddu, Cwm Ogwr. Gweithgynhyrchu cynwysyddion ffoil alwminiwm.

- Day's Medical Aids Ltd, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr. Gweithgynhyrchwyr cadeiriau olwyn, cymhorthion cerdded, offer nyrsio cartref, a chymhorthion ystafell ymolchi a thoiled. Cyflenwyr sgwteri symudedd personol.

- Dunraven Manufacturing, Y Pîl. Drysau, ffenestri, ac ystafelloedd gwydr.

- Ford, Ystad Ddiwydiannol Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr. Gweithgynhyrchu peiriannau modur.

- G4S. Gweithredwr Carchar y Parc, sydd wedi'i leoli ger cyffordd 36 yr M4.

- Invacare UK, Parc Technoleg Pencoed, Pencoed. Gweithgynhyrchu a chyflenwi offer symudedd ac iechyd ar gyfer gofal cartref.

- John Raymond Transport, Ystad Ddiwydiannol Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr. Cludiant a logisteg.

- JW Morris Ltd, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr. Contractwyr trydanol a mecanyddol.

- Ortho-Clinical Diagnostics, Parc Technoleg Pencoed. Cynhyrchu pecynnau prawf i'r sector gofal iechyd. (Mewn gwirionedd, mae'r cwmni hwn ychydig dros y ffin yn Rhondda Cynon Taf, ond mae iddo berthynas gref â Phen-y-bont ar Ogwr, ac mae'n aelod o Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr.)

- Northwood & Wepa, ger Maesteg. Gweithgynhyrchu macynau papur a phapur toiled.

- Rockwool Rockpanel BV, ger Pencoed. Gweithgynhyrchu deunydd inswleiddio.

- SAS International, Ystad Ddiwydiannol Waterton. Gweithgynhyrchu nenfydau crog.

- Canolfan Dechnoleg Sony UK, Parc Technoleg Pencoed. Gweithgynhyrchu camerâu darlledu ynghyd â gwasanaethau cymorth technegol.

- Spectrum Technologies PLC, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr. Offer marcio gyda laser ar gyfer y sector awyrofod.

- Steinhoff Furniture UK, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr. Gweithgynhyrchwyr dodrefn.

- Talis Group (Atlantic Plastics), Ystad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr. Falfiau a chynhyrchion eraill ar gyfer trin dŵr a gwasanaethau carthffosiaeth.

Mae manwerthwyr hefyd yn gyflogwyr pwysig, ac mae'r ardal yn cynnwys Tesco (tair prif siop), Asda (dwy brif siop) a Sainsbury's (un brif siop).

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei hun yw'r cyflogwr sengl mwyaf yn yr ardal, o bell ffordd, gyda thua 6,400 o weithwyr. Mae hyn yn cynnwys athrawon a staff eraill ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn gyflogwr sector cyhoeddus sylweddol arall yn yr ardal, sy'n cynnwys Ysbyty Tywysoges Cymru.

**Anweithgarwch economaidd (Hydref 2016-Medi 2017)**

| | BS Pen-y-bont ar Ogwr | BS Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Pawb** | | | | |
| **Y cyfanswm sy'n economaidd** | **22,600** | **26.2** | **24.3** | **21.9** |
| O'r rhain: myfyrwyr | 4,600 | 20.5 | 26.9 | 27.1 |
| O'r rhain: yn gofalu am deulu/y cartref | 5,100 | 22.6 | 19.4 | 24.3 |
| O'r rhain: salwch hirdymor | 7,300 | 32.4 | 27.0 | 21.9 |
| O'r rhain: wedi ymddeol | 3,000 | 13.4 | 15.0 | 13.4 |
| Yn dymuno cael swydd | 5,900 | 26.2 | 23.8 | 23.1 |
| Ddim yn dymuno cael swydd | 16,700 | 73.8 | 76.2 | 76.9 |

Ffynhonnell: Nodiadau arolwg poblogaeth blynyddol yr ONS: mae'r niferoedd a'r % ar gyfer pobl o oedran gweithio. Mae'r % yn gyfran o'r boblogaeth oedran gweithio breswyl yn yr ardal, ynghyd â'u rhywedd. Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y ffigurau uchod yn adio'n union.

Sylwadau

1. Mae canran yr anweithgarwch economaidd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 26.2%, sy'n yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru (24.3%) a Phrydain Fawr (21.9%).
2. Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfran lawer llai o fyfyrwyr na'r ffigur ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr, ond cyfran lawer mwy o bobl sydd ar absenoldeb salwch hirdymor.
3. Mae canran y bobl economaidd anweithgar ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n dymuno cael swydd (26.2% o'r boblogaeth economaidd anweithgar) yn uwch na Chymru a Phrydain Fawr, fel ei gilydd.

**Newid yng nghanran y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra Rhagfyr 2016 i Ragfyr 2017 – De-ddwyrain Cymru**

| | Rhagfyr 2016 | Rhagfyr 2017 | Newid o un flwyddyn i'r llall |
|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.4 | 1.3 | -0.1 |
| Rhondda Cynon Taf | 1.6 | 1.3 | -0.3 |
| Merthyr Tudful | 1.8 | 1.7 | -0.1 |
| Caerffili | 1.9 | 1.6 | -0.3 |
| Blaenau Gwent | 2.4 | 1.6 | -0.8 |
| Torfaen | 1.1 | 0.6 | -0.5 |
| Bro Morgannwg | 1.2 | 1.1 | -0.1 |
| Sir Fynwy | 0.7 | 0.6 | -0.1 |
| Casnewydd | 2.0 | 1.5 | -0.5 |
| Caerdydd | 1.6 | 1.4 | -0.2 |
| **Cymru** | **1.4** | **1.1** | **-0.3** |
| Y Deyrnas Unedig | 1.2 | 1.1 | -0.1 |

Ffynhonnell: Systemau gweinyddol y Ganolfan Byd Gwaith
Hawlwyr budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra, h.y. lwfans ceiswyr gwaith fel canran o'r boblogaeth o oedran gweithio (dynion 16-64 oed a menywod 16-59 oed)

**Cysylltiadau defnyddiol**

Neu, i gael rhagor o wybodaeth, ewch i
[business.bridgend.gov.uk](business.bridgend.gov.uk)

Uned Economi ac Adnoddau Naturiol, Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr, Ffôn: 01656 815315.
E-bost: busnes@bridgend.gov.uk,
Ewch i: parth busnes www.bridgend.gov.uk .